

Pwy fydd yn darparu'r cwrs hwn?

Bydd y cwrs hwn yn cael ei ddarparu gan Ysgol Eifionydd.

Beth fyddai'n ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i:

- Ddysgu sut mae gweithio'n ddiogel ac effeithiol mewn maes peirianeg trwy baratoi at sefyllfa waith;
- Ddysgu defnyddio ac egluro gwybodaeth dechnegol;
- Ddysgu sut i ddefnyddio meddalwedd Dylunio ar Gyfrifiadur (CAD) i wneud darluniau mecanyddol;
- Ddefnyddio offer llaw a pheiriannau i gynhyrchu darnau gyda nodweddion gwahanol.

Sut fyddai'n dysgu?

Bydd 75% o'r cwrs yn cael ei ddysgu drwy weithgareddau ymarferol. Bydd y 25% arall yn cael ei ddysgu yn y dosbarth.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Byddwch yn cael eich asesu'n barhaus drwy'r flwyddyn ar ddarnau o waith ysgrifennu neu lafar ac asesiadau ymarferol. Cewch gyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu fel eich bod yn gwybod ac yn deall beth sy'n rhaid i chi ei wneud.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs yma?

Ar ôl Blwyddyn 11, os byddwch wedi gorffen y cwrs hwn yn llwyddiannus, gallwch fynd yn dy flaen i astudio cwrs Lefel 3 mewn maes perthnasol, neu gelli ddal ati i orffen neu astudio mwy o unedau ar Lefel 2. Ar ôl hynny, mi fyddi di'n barod i weithio mewn swydd addas o dan oruchwyliaeth, lle gelli ddal i hyfforddi ar gynllun Prentisiaeth Fodern Lefel 3, neu fynd ymlaen i astudio mewn addysg uwch.

Ond, os nad wyt ti awydd dal ati gyda pheirianeg, mi allet ti ddewis cwrs arall addas, gan ddibynnu beth hoffet ti wneud nesaf. Bydd dy gynghorydd gyrfa yn gallu dy helpu i wneud dy ddewis pan fyddi di'n gadael yr ysgol.

Syniadau am swyddi.

- Technegydd Peirianeg Mecanyddol
- Peiriannydd cynhyrchu

Am wybodaeth pellach cysylltwch â

Mr. Roger Vaughan